

Patrwm cyflwyno: O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

L222 yw'r modiwl cyntaf yng nghwrs Diploma'r Brifysgol mewn Ffrangeg. Mae'n ehangu'r sgiliau iaith a feithrinwyd yn L112 – Astudiaethau Ffrangeg 1: iaith a Diwylliant y gwledydd Ffrengig – (a elwid yn L120 – *Ouverture: Ffrangeg ganolraddol* yn flaenorol) ac yn gwella gwybodaeth ddiwylliannol myfyriwr. Drwy weithio gyda deunyddiau clyweledol rhyngweithiol, argraffedig ac ar y we, bydd y myfyrwyr yn dysgu sut i gyfathrebu mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd, yn gwella eu gramadeg a'u geirfa ac yn meithrin sgiliau rhyngddiwylliannol, academaidd a chyflogadwyedd yn ogystal â sgiliau llythrennedd digidol a gwybodaeth fel rhan annatod o'r cwricwlwm. Cynhelir yr ysgol breswyl integredig yn Ffrainc. Os na all myfyrwyr fynychu'r ysgol breswyl, rhaid iddynt gwblhau profiad dysgu amgen ar-lein neu dros y ffôn. Cynigir y modiwl hwn drwy gymysgedd o diwtorialau wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar-lein. Mae'r modiwl hwn yn arwain at gymhwyster ar lefel sy'n gymaradwy â B2, fel y'i disgrifir gan Gyngor Ewrop.

Byddwch yn addysgu'r modiwl hwn drwy ddulliau cyfunol, gan gynnwys cynadleddau cydamseredig, tiwtorialau wyneb yn wyneb a fforymau ar-lein. Bydd mwyafrif y tiwtorialau y byddwch yn eu cynnal yn rhai ar-lein, gan ddefnyddio system cynadledda clyweledol. Fel arfer bydd rhywfaint o diwtora wyneb yn wyneb (neu fel arall dros y ffôn) gan ddibynnu ar y lleoliad daearyddol. Cyflwynir y modiwl drwy Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Brifysgol. Bydd disgwyl i chi gefnogi a thiwtora myfyrwyr ar yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir yn rheolaidd drwy fforwm grŵp tiwtor ar-lein.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- cymhwysedd siaradwr brodorol neu bron yn frodorol mewn Ffrangeg a gradd mewn astudiaethau iaith
 - neu bwnc priodol arall
- profiad helaeth o addysgu Ffrangeg ac agweddau ar astudiaethau Ffrengig, yn ddelfrydol i oedolion
- ymrwymiad i addysgu iaith sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu
- sensitifrwydd i'r problemau penodol sy'n gysylltiedig ag addysgu iaith o bell
- dealltwriaeth eang o wledydd lle siaredir Ffrangeg, eu cymdeithasau a'u diwylliannau
- parodrwydd i feithrin ymwybyddiaeth ryngddiwylliannol y myfyrwyr
- y gallu i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i addysgu iaith
- ymrwymiad i helpu myfyrwyr i feithrin sgiliau fel unigolyn graddedig Y Brifysgol Agored, gan gynnwys
 - llythrennedd digidol a gwybodaeth, sgiliau cyflogadwyedd a chynllunio datblygiad personol.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- cymhwyster addysgu priodol
- profiad o addysgu ar lefel drydyddol.

Gwybodaeth ychwanegol

- Byddai profiad o ddefnyddio ffurfiau electronig ar addysgu a chefnogi o bell yn ddefnyddiol,
ond bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu.
- Caiff y tiwtorialau eu cynnal gyda'r hwyr neu ar benwythnosau. Disgwylir i chi fod ar gael i ateb
galwadau ffôn neu negeseuon e-bost rhwng tiwtorialau er mwyn helpu'r myfyrwyr gyda'u hanawsterau.
- Byddwch hefyd yn cymedroli fforwm ar-lein; caiff aseiniadau eu cyflwyno, eu marcio a'u dychwelyd yn electronig.
- Bydd angen i chi gael mynediad rheolaidd at gyfrifiadur sy'n cydymffurfio â'r manylebau a bennir ar
y wefan cyfrifiadura bersonol ar gyfer L222.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	6
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	5.30